# Y diwydiant teithio traddodiadol – rhestr o gamau gweithredu

**Enw'r busnes:**

**Dyddiad cwblhau:**

| Camau gweithredu – cam 1: Yn barod ar gyfer y diwydiant | I'w gwneud | Ar waith | Wedi cwblhau | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu eich cynhyrchion / profiadau | ☐ | ☐ | ☐ | *Oes modd archebu 12-18 mis ymlaen llaw? Ydyn nhw'n addas ar gyfer FITs a / neu grwpiau? Beth yw eich amodau a thelerau?* |
| Adolygu eich strategaeth brisio | ☐ | ☐ | ☐ | *Ystyried cynnig cyfraddau i'r diwydiant. Ydych chi'n gwneud digon o elw i gynnig comisiwn neu gyfraddau net? Oes gennych chi brisiau ar gael 12-18 mis ymlaen llaw?* |
| Adolygu pryd rydych chi ar gael | ☐ | ☐ | ☐ | *Cwblhau'r tymor gweithredol / oriau agor ar gyfer 2026, ac yn ddelfrydol hefyd ar gyfer 2027.* |
| Nodi'ch pwyntiau gwerthu unigryw (USP) ac ysgrifennu disgrifiadau byr ar gyfer eich cynhyrchion | ☐ | ☐ | ☐ | *Beth sy'n gwneud i bobl fod eisiau archebu eich cynnyrch? Ystyried gofyn i gysylltiadau yn y diwydiant neu gwsmeriaid eraill am adborth.* |
| Dod o hyd i luniau a fideos, a chreu ffolder luniau. | ☐ | ☐ | ☐ | *Adolygu'r lluniau a'r fideos sydd gennych eisoes. Trefnu mwy o luniau a fideos os oes angen. Creu ffolder ar-lein neu ar eich cyfrifiadur / gliniadur gyda lluniau y gallwch eu rhannu.* |
| Creu (neu ddiweddaru) taflen wybodaeth am y cynnyrch | ☐ | ☐ | ☐ | *I gynnwys prisiau, amodau a thelerau, oriau agor, sut i archebu, sut i dalu, cludiant, mynediad, ieithoedd, disgrifiadau, lluniau ac ati. Gweler y templedi am restr o'r cynnwys sy'n cael ei awgrymu.* |
| Os nad ydych chi siŵr, siaradwch â chwmni bysiau moethus lleol am fynediad i fysiau a pharcio | ☐ | ☐ | ☐ | |

| Camau gweithredu – cam 2: Gwerthu i'r diwydiant teithio | I'w gwneud | Ar waith | Wedi cwblhau | Nodiadau |
|---|---|---|---|---|
| Nodi rhestr o dargedau'r diwydiant teithio i gysylltu â nhw | ☐ | ☐ | ☐ | *Nodi'ch cynulleidfa - adolygu eich marchnadoedd ffynhonnell ac ai archebion grŵp neu FIT sydd eu heisiau arnoch chi. Nodi trefnwyr teithiau a chwmnïau rheoli cyrchfannau (DMCs) sy'n gweithio yn eich marchnadoedd a gyda grwpiau a / neu FITs.* |
| Sefydlu LinkedIn ar eich cyfer chi | ☐ | ☐ | ☐ | *Sefydlu proffil personol ar LinkedIn.* |
| Sefydlu LinkedIn ar gyfer eich busnes | ☐ | ☐ | ☐ | *Sefydlu proffil cwmni ar LinkedIn. Estyn allan i gysylltu â chysylltiadau'r diwydiant teithio.* |
| Adolygu cymdeithasau'r diwydiant | ☐ | ☐ | ☐ | *Ystyried ymuno â CTA, UKinbound, ETAG, BETA, ETOA er enghraifft.* |
| Adolygu sioeau masnach | ☐ | ☐ | ☐ | *Adolygu cyfleoedd busnes i fusnes mewn sioeau masnach, er enghraifft drwy Croeso Cymru (WTM, BTTS).* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adolygu digwyddiadau rhwydweithio | ☐ | ☐ | ☐ | *Adolygu cyfleoedd rhwydweithio, er enghraifft wedi'u trefnu gan Croeso Cymru, UKinbound, CTA, ETAG ac ati. Oes unrhyw gyfleoedd rhwydweithio yn eich ardal chi?* |
| Ymgysylltu â Croeso Cymru, ac ychwanegu rhestr i'w gwefan ar gyfer y diwydiant teithio | ☐ | ☐ | ☐ | *Ychwanegu'ch rhestr am ddim i wefan y diwydiant teithio Croeso Cymru – gwnewch gais ar wefan y diwydiant teithio.*<br>*Cymryd rhan mewn teithiau ymgyfarwyddo, rhwydweithio a chyfleoedd masnach eraill.* |